RHIF YR YMCHWIL GYMDEITHASOL: 11/2017
DYDDIAD CYHOEDDI: 01/03/2017

# Pwy sydd fwyaf tebygol o 'siarad Cymraeg' ac o 'siarad Cymraeg yn feunyddiol a siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg'?

(Dangosyddion Cenedlaethau'r Dyfodol 36 a 37)

Defnyddir canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15 yma i ymchwilio i'r ffactorau sy'n gysylltiedig â siarad Cymraeg. Rydym wedi rheoli ystod o ffactorau, felly hyd yn oed pan fo cysylltiad rhwng ffactorau (e.e. oedran a bod â phlant yn yr aelwyd) gellir archwilio'r cyswllt rhwng pob ffactor a siarad Cymraeg yn annibynnol.

## Canfyddiadau allweddol

Mae llawer o ffactorau sy'n rhagfynegi a yw pobl yn siarad Cymraeg, ac a ydynt yn siarad mwy o Gymraeg[1]. Wrth reoli ystod eang o ffactorau eraill, roedd pobl yn fwy tebygol o siarad Cymraeg, ac o siarad mwy o Gymraeg os oeddent:

- Yn eu hystyried eu hunain yn wyn
- Yn byw yng Ngwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin
- Rhwng 16 a 29 oed
- Wedi'u haddysgu i lefel uwch
- Yn eu hystyried eu hunain yn Gristnogion

Hefyd, mae pobl yn debygol o siarad mwy o Gymraeg os yw'r canlynol yn wir:

- Os ydynt yn byw mewn ardaloedd gwledig
- Os oes ganddynt fwy o deulu a ffrindiau agos
- Os ydynt yn gyflogedig
- Os ydynt yn berchen ar eu cartref, yn hytrach nag yn rhentu

Mae pobl sy'n dweud eu bod yn siarad Cymraeg ond nad ydynt yn ei siarad rhyw lawer yn debygol o fod o ardaloedd Cymraeg traddodiadol, rhwng 16 a 29 oed, neu'n weddw.

Ni chanfuom gyswllt rhwng bod â phlant yn yr aelwyd a siarad Cymraeg, na siarad mwy o Gymraeg.

---

[1] Y diffiniad yma yw pobl sy'n siarad Cymraeg yn feunyddiol ac sydd hefyd yn ddigon rhugl i siarad mwy nag ychydig eiriau .

## 1. Cefndir

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi'i bwriadu i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy sefydlu saith nod llesiant. Mae'r Ddeddf yn gosod gofyniad cyfreithiol ar Lywodraeth Cymru i bennu dangosyddion cenedlaethol sy'n mesur i ba raddau y mae'r nodau llesiant yn cael eu cyrraedd. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ddangosydd 36, 'Y ganran o'r bobl sy'n siarad Cymraeg yn feunyddiol ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg'; a dangosydd 37, 'Y ganran o'r bobl sy'n gallu siarad Cymraeg'.

Defnyddir Arolwg Cenedlaethol Cymru i fesur cynnydd yn erbyn llawer o'r dangosyddion cenedlaethol hyn. Arolwg wyneb yn wyneb, ar raddfa fawr sy'n casglu gwybodaeth fanwl am farn a llesiant pobl ydyw. Fe ymatebodd 14,285 o bobl i arolwg 2014-15. Mae'n darparu gwybodaeth gadarn am farn pobl ynglŷn ag ystod eang o faterion.

## 2. Mesurau o siarad Cymraeg

Dywedodd 21% o bobl eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Dywedodd 12% o bobl eu bod yn siarad mwy o Gymraeg: hynny yw, eu bod yn siarad Cymraeg yn feunyddiol a'u bod yn ddigon rhugl i siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg. Dywedodd 9% eu bod yn siarad Cymraeg ond nad ydynt yn ei siarad bob dydd neu nad ydynt yn siarad mwy nag ychydig eiriau.

## 3. Dull o ddadansoddi

I gael dealltwriaeth glir sut y mae pob ffactor unigol yn cyfrannu at amddifadedd sylweddol, fe ddefnyddion ni dechneg a elwir yn ddadansoddiad atchweliad. Mae dadansoddiad atchweliad yn ein galluogi i archwilio'r cysylltiadau rhwng ffactorau penodol a siarad Cymraeg.

Er enghraifft, gwyddom fod pobl sydd â phlant yn eu haelwyd yn fwy tebygol o siarad Cymraeg. Fodd bynnag, mae pobl â phlant hefyd yn fwy tebygol o fod rhwng 30 a 50 oed; ac mae pobl rhwng 30 a 50 oed yn fwy tebygol o siarad Cymraeg. Gall hyn ei gwneud yn anodd gwybod ai am fod plant yn yr aelwyd ynteu oherwydd oedran y mae pobl yn siarad Cymraeg. Unwaith y caiff ffactorau eraill eu rheoli, gan ddefnyddio dadansoddiad atchweliad, mae'n amlwg nad yw bod â phlant yn yr aelwyd, ynddo'i hun, yn effeithio ar y tebygolrwydd o siarad mwy o Gymraeg. Ond mae oedran yn effeithio ar y tebygolrwydd o siarad mwy o Gymraeg, hyd yn oed pan gaiff ffactorau eraill eu hystyried.

Mae'r dadansoddiad o bob ffactor a gyflwynir isod yn rheoli ystod o ffactorau eraill, felly gall y cyswllt rhwng pob ffactor sydd o ddiddordeb gael ei ynysu a'i archwilio. Mae gan yr holl ffactorau yr adroddir arnynt isod gyswllt ystadegol arwyddocaol â siarad Cymraeg (hynny yw, rydym yn hyderus iawn bod y canfyddiadau hyn yn gadarn ac nid wedi deillio'n syml o amrywioldeb yn amcangyfrifon yr arolwg).

Gall dadansoddiad atchweliad adnabod perthnasoedd rhwng newidynnau; fodd bynnag, ni all ddweud wrthym am achosiaeth. Er bod achosiaeth yn gymharol glir ar gyfer rhai newidynnau yn seiliedig ar wybodaeth flaenorol (e.e. nid yw siarad Cymraeg yn achosi newidiadau mewn rhywedd; mae rhywedd yn achosi newidiadau o ran siarad Cymraeg), ar gyfer eraill mae'r berthynas rhwng achos ac effaith yn fwy niwlog (gall cymwysterau uchel gael effaith o ran a yw rhywun yn siarad Cymraeg ai peidio; mae siarad Cymraeg yn gallu effeithio ar lefelau cymwysterau). Felly, lle nad yw gwybodaeth flaenorol yn gwneud cyfeiriad achosiaeth yn glir

rydym wedi nodi'n gyffredinol y gall achosiaeth weithio yn y naill gyfeiriad neu'r llall (neu'r ddau).


I gael disgrifiad llawn o'r modd y gwnaethom gwblhau'r dadansoddiad, gweler yr adroddiad technegol sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn.

## 4. Prif ganfyddiadau: rhagfynegyddion ar gyfer 'gallu siarad Cymraeg'

Wrth reoli ffactorau eraill, canfuwyd fod y canlynol yn rhagfynegyddion ar gyfer gallu siarad Cymraeg[2]:


**Y cymhwyster uchaf:** Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson, pobl ag addysg ar lefel gradd ac uwch sydd fwyaf tebygol o siarad Cymraeg (0.25) [3]. Pobl heb unrhyw gymwysterau sydd leiaf tebygol o siarad Cymraeg (0.16), fel a ddangosir yn Ffigur 1.

*Ffigur 1: Y cyswllt rhwng lefel cymwysterau a gallu siarad Cymraeg*




**Oedran:** Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson, y bobl sydd fwyaf tebygol o allu siarad Cymraeg yw'r rhai rhwng 16 a 29 oed (0.28), fel a ddangosir yn Ffigur 2.

*Ffigur 2: Y cyswllt rhwng oedran a gallu siarad Cymraeg*




**Ethnigrwydd:** Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson, mae pobl sy'n eu hystyried eu hunain yn wyn yn fwy tebygol o allu siarad Cymraeg (0.21). Pobl sydd heb fod yn wyn[4] sydd leiaf tebygol o siarad Cymraeg (0.03), fel a ddangosir yn Ffigur 3:


---

[2] Os nad yw'r barrau gwallau ar gyfer pob ymateb yn gorgyffwrdd, mae'r gwahaniaeth rhwng yr ymatebion yn ystadegol arwyddocaol.

[3] Wrth reoli'r ffactorau eraill, byddai tebygolrwydd o 0 yn dynodi tebygolrwydd o 0% y byddai ymatebydd yn y grŵp yma'n gallu siarad Cymraeg. Byddai tebygolrwydd o 1.0 yn dynodi tebygolrwydd o 100% y byddai ymatebydd yn y grŵp yma'n gallu siarad Cymraeg.


* Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson.

*Ffigur 3: Y cyswllt rhwng ethnigrwydd a gallu siarad Cymraeg*





**Crefydd:** Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson, Cristnogion yw'r bobl sydd fwyaf tebygol o siarad Cymraeg (0.23). Pobl heb unrhyw grefydd yw'r rhai sydd leiaf tebygol o siarad Cymraeg (0.17). Roedd amrywioldeb mawr ymhlith y rhai â chrefyddau eraill, fel a ddangosir yn Ffigur 4.

*Ffigur 4: Y cyswllt rhwng crefydd a gallu siarad Cymraeg*




**Ardal:** Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson, y bobl sydd fwyaf tebygol o siarad Cymraeg yw pobl o Wynedd (0.71), Ynys Môn (0.61), Ceredigion (0.46) a Sir Gaerfyrddin (0.46), fel a ddangosir yn Ffigur 5.

*Ffigur 5: Y cyswllt rhwng ardal a gallu siarad Cymraeg*





[4] Nid oedd yn bosibl rhannu'r categori hwn yn grwpiau ethnig mwy ystyrlon, gan fod nifer yr ymatebwyr nad ydynt yn wyn yn rhy fach.

* Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson.

Mae Ffigur 6 yn crynhoi'r berthynas rhwng y ffactorau uchod a'r gallu i siarad Cymraeg. Mae'r graff yn dangos bod ardal awdurdod lleol yn amlwg yn ddangosydd pwerus ar gyfer gallu siarad Cymraeg, a bod peidio â bod yn wyn yn rhagfynegi'n gryf na fydd rhywun yn siarad Cymraeg.

*Ffigur 6: Y tebygolrwydd o ymateb gan ddweud eu bod yn 'Gallu Siarad Cymraeg'*[5]




[5] Fel yn flaenorol, gellir defnyddio'r barrau gwallau i weld ble y ceir gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol ymhlith categorïau o bob newidyn: os nad yw'r barrau'n gorgyffwrdd, mae'r gwahaniaeth yn debygol o fod yn wahaniaeth 'gwirioneddol'. Fodd bynnag, ni fyddai'n gywir (nac yn ystyrlon) casglu bod barrau gwallau nad ydynt yn gorgyffwrdd yn golygu bod categori o un newidyn (e.e. pobl â chymwysterau uchel) yn rhagfynegi'r gallu i siarad Cymraeg yn arwyddocaol wahanol i gategori o newidyn arall (e.e. bod rhywun yn sengl).

### 4.1 Ffactorau nad ydynt yn gysylltiedig â siarad Cymraeg

Ni chanfuom gyswllt rhwng y canlynol a siarad Cymraeg: rhywedd; statws economaidd; bod â phlant yn yr aelwyd; a theimlo eich bod yn cael eich gwerthfawrogi yn y gymdeithas.

## 5. Rhagfynegyddion ar gyfer 'siarad mwy o Gymraeg'


Fe wnaethom hefyd fwrw golwg ar bobl sy'n siarad Cymraeg yn feunyddiol a hefyd mwy nag ychydig eiriau. Wrth reoli ffactorau eraill, canfuwyd fod y canlynol yn rhagfynegyddion ar gyfer 'siarad Cymraeg yn feunyddiol a siarad mwy nag ychydig eiriau'.

### 5.1 Nodweddion ymatebwyr

**Ethnigrwydd:** Mae peidio â bod yn wyn yn rhagfynegydd cryf iawn ar gyfer peidio â siarad mwy o Gymraeg. Dim ond pedwar ymatebydd o blith y rhai a oedd yn 'siarad mwy o Gymraeg' oedd heb fod yn wyn. Gan fod y berthynas hon mor gryf, nid oedd yn bosibl ei chynnwys yn y model atchweliad (h.y. ymchwilio iddi wrth reoli'r ffactorau eraill, neu ei hystyried wrth archwilio ffactorau eraill). Fodd bynnag, mae'n ffactor allweddol i'w gadw mewn cof.

**Crefydd:** Pan gedwir yr holl ffactorau eraill yn gyson, pobl sy'n Gristnogion sydd fwyaf tebygol o siarad mwy o Gymraeg (0.13). Mae'r rhai heb unrhyw grefydd yn llai tebygol o siarad mwy o Gymraeg (0.09). Pobl o grefyddau eraill oedd leiaf tebygol o siarad mwy o Gymraeg (0.04). Fel a nodwyd uchod, nid oedd yn bosibl gwahanu effeithiau crefydd ac ethnigrwydd yn y dadansoddiad hwn.

*Ffigur 7: Y cyswllt rhwng crefydd a siarad mwy o Gymraeg*




**Rhywedd**: Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson, menywod sydd fwyaf tebygol o siarad mwy o Gymraeg (0.12) fel a ddangosir yn Ffigur 8[6].

*Ffigur 8: Y cyswllt rhwng rhywedd a siarad mwy o Gymraeg*





---

[6] Er bod y barrau gwallau'n gorgyffwrdd ychydig, dangosodd profion pellach fod y gwahaniaeth yn ystadegol arwyddocaol.

[*] Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson.


**Oedran:** Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson, pobl rhwng 16 a 29 oed sydd fwyaf tebygol o siarad mwy o Gymraeg (0.15). Mae'r tebygolrwydd hwn yn gostwng gydag oedran, ac eithrio'r categori 70+, fel a ddangosir yn Ffigur 9:

*Ffigur 9: Y cyswllt rhwng oedran a siarad mwy o Gymraeg*





**Y cymhwyster uchaf:** Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson, pobl sydd â chymwysterau ar lefel gradd ac uwch sydd fwyaf tebygol o siarad mwy o Gymraeg (0.14), fel a ddangosir yn Ffigur 10:

*Ffigur 10: Y cyswllt rhwng lefel cymwysterau a siarad mwy o Gymraeg.*




**Statws economaidd:** Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson, pobl sydd mewn cyflogaeth sydd fwyaf tebygol o siarad mwy o Gymraeg (0.13)[7], fel a ddangosir yn Ffigur 11[8]:

*Ffigur 11: Y cyswllt rhwng statws cyflogaeth a siarad mwy o Gymraeg.*




**Ffrindiau a theulu agos:** Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson, po fwyaf o ffrindiau a theulu agos oedd gan yr ymatebydd, po uchaf oedd y tebygolrwydd ei fod yn siarad mwy o Gymraeg. Y rhai sydd heb unrhyw ffrindiau na theulu agos sydd leiaf tebygol o siarad mwy o Gymraeg (0.05). Y rhai sydd â mwy na deg o ffrindiau a theulu agos yw'r rhai sydd fwyaf tebygol (0.13), fel a ddangosir yn Ffigur 12:


---

* Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson.

[7] Er bod y barrau gwallau'n gorgyffwrdd ychydig, dangosodd profion pellach fod y gwahaniaeth rhwng 'statws economaidd' yn ystadegol arwyddocaol

[8] Mae anweithgar yn economaidd yn cynnwys y rhai sy'n fyfyrwyr ac yn bensiynwyr.


*Ffigur 12: Y cyswllt rhwng ffrindiau a theulu agos a siarad mwy o Gymraeg*




## 5.2 Tai a'r Ardal

**Deiliadaeth:** Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson, pobl sy'n byw mewn tai sy'n eiddo i berchen-feddianwyr sydd fwyaf tebygol o siarad mwy o Gymraeg (0.12). Y rhai sy'n byw mewn tai rhent preifat sydd leiaf tebygol (0.07), fel a ddangosir yn Ffigur 13:


*Ffigur 13: Y cyswllt rhwng deiliadaeth a siarad mwy o Gymraeg*




**Awdurdod Lleol:** Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson, pobl sy'n byw yng Ngwynedd sydd fwyaf tebygol o siarad mwy o Gymraeg (0.52), gydag Ynys Môn yn ail (0.36), Sir Gaerfyrddin yn drydydd (0.3) a Cheredigion yn bedwerydd (0.25). Mae'r rhai sydd leiaf tebygol yn byw yn Sir Fynwy a Blaenau Gwent (0.01 yn y ddau achos) a Chasnewydd (0.02), fel a ddangosir yn Ffigur 14:


* Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson.

*Ffigur 14: Y cyswllt rhwng ardal a siarad mwy o Gymraeg*




**Ardal drefol / wledig:** Pan gedwir yr holl ffactorau eraill yn gyson, mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn fwy tebygol o siarad mwy o Gymraeg (0.14) na'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd trefol (0.09), fel a ddangosir yn Ffigur 15:


*Ffigur 15: Y cyswllt rhwng ardal drefol neu wledig a siarad mwy o Gymraeg*




**Dadansoddiad pellach o oedran a lefel cymwysterau**: I bobl heb unrhyw gymwysterau, y rhai 70+ oed sydd fwyaf tebygol o siarad mwy o Gymraeg. I bobl iau, y rhai â chymwysterau ar lefel gradd neu uwch yw'r grŵp sydd fwyaf tebygol o fod yn siaradwyr Cymraeg. Y rhai 50-59 oed â lefel cymwysterau is na TGAU gradd C sydd leiaf tebygol o fod yn siaradwyr Cymraeg, fel a ddangosir yn Ffigur 16:

* Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson.


*Ffigur 16: Y cyswllt rhwng oedran, lefel addysg a siarad mwy o Gymraeg*




Mae Ffigur 17 yn crynhoi cyfraniad yr holl ffactorau uchod tuag at ‘siarad mwy o Gymraeg’. Mae’r graff yn dangos mai ardal awdurdod lleol yw’r dangosydd mwyaf pwerus ar gyfer siarad mwy o Gymraeg.

* Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson.

*Ffigur 17: Y tebygolrwydd o siarad mwy o Gymraeg*[9, 10]




[9] Nid oedd modd cynnwys ethnigrwydd yn y siart hon gan fod peidio â bod yn wyn yn rhagfynegydd perffaith ar gyfer peidio â 'siarad mwy o Gymraeg'.

[10] Fel yn flaenorol, gellir defnyddio'r barrau gwallau i weld ble y ceir gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol ymhlith categorïau o bob newidyn: os nad yw'r barrau'n gorgyffwrdd, mae'r gwahaniaeth yn debygol o fod yn wahaniaeth 'gwirioneddol'. Fodd bynnag, ni fyddai'n gywir (nac yn ystyrlon) casglu bod barrau gwallau nad ydynt yn gorgyffwrdd yn golygu bod categori o un newidyn (e.e. bod â chymwysterau uchel) yn rhagfynegi'r gallu i siarad Cymraeg yn arwyddocaol wahanol i gategori o newidyn arall (e.e. bod rhywun yn gyflogedig).


## 5.3 Ffactorau nad ydynt yn gysylltiedig â siarad mwy o Gymraeg

Ni chanfuom gyswllt rhwng y canlynol a siarad Cymraeg yn fwy: statws priodasol; bod ag anabledd neu afiechyd hirdymor cyfyngol; bod â phlant yn yr aelwyd; teimlo eich bod yn cael eich gwerthfawrogi yn y gymdeithas; a bod mewn amddifadedd sylweddol.

# 6. Dadansoddiad o bobl sy'n siarad Cymraeg ond nid yn aml nac yn rhugl

Mae pobl sy'n gallu siarad Cymraeg, ond nad ydynt yn siarad mwy nag ychydig eiriau bob dydd, yn fwy tebygol o fod o ardaloedd Cymraeg traddodiadol, rhwng 16 a 29, neu'n weddw neu'n sengl (Ffigur 18).

*Ffigur 18: Y tebygolrwydd o ymateb gan ddweud eu bod yn 'Gallu Siarad Cymraeg' ond nad ydynt yn ei siarad yn feunyddiol neu'n siarad mwy nag ychydig eiriau*[11]




Mae manylion pellach o ran y modd y gwnaethom gwblhau'r dadansoddiad ar gael yn yr adroddiad technegol sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn.

[11]Fel yn flaenorol, gellir defnyddio'r barrau gwallau i weld ble y ceir gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol ymhlith categorïau o bob newidyn: os nad yw'r barrau'n gorgyffwrdd, mae'r gwahaniaeth yn debygol o fod yn wahaniaeth 'gwirioneddol'. Fodd bynnag, ni fyddai'n gywir (nac yn ystyrlon) casglu bod barrau gwallau nad ydynt yn gorgyffwrdd yn golygu bod categori o un newidyn (e.e. pobl rhwng 16 a 24 oed) yn rhagfynegi'r canlyniad yn arwyddocaol wahanol i gategori o newidyn arall (e.e. bod rhywun yn sengl).

Awdur yr adroddiad: Cathryn Knight, Prifysgol Caerdydd

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Lisa Walters
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ
E-bost: lisa.walters@cymru.gsi.gov.uk
Ffôn: 0300 025 6685

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol: 978-1-4734-8764-2